# LEWIS, WILLIAM BEVAN (1847 - 1929), awdurdod ar anhwylderau'r meddwl



**Enw:** William Bevan Lewis
**Dyddiad geni:** 1847
**Dyddiad marw:** 1929
**Rhiant:** Jane Lewis (née Mansel Bevan)
**Rhiant:** William Thomas Lewis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** awdurdod ar anhwylderau'r meddwl
**Maes gweithgaredd:** Meddygaeth
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Aberteifi 21 Mai 1847, yn fab i William Thomas Lewis (o Drefgarn ac Aberteifi) a'i wraig Jane Mansel (Bevan); addysgwyd yn Aberteifi ac yn Guy's Hospital. Bu'n feddyg yn Burry Port am bedair blynedd; yna ymunodd â staff y ' West Riding Asylum ' yn Wakefield, a bu'n aelod ohoni am 35 mlynedd - yn y diwedd, efe oedd y cyfarwyddwr. Bu hefyd mewn cyswllt â Phrifysgol Leeds am chwarter canrif, a chafodd gadair athro ynddi yn ei bwnc. Bu farw 14 Hydref 1929.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


T. Iorwerth Jones yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1932-3 (gyda rhestr o'i lyfrau a'i bapurau)

*Who was who?*


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 49343215

Wikidata: Q20738177


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu